| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **24 Hydref 2016** |
| **Teitl yr Adroddiad:** | **Panel Annibynnol  Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried cynnwys yr adroddiad drafft** |

## 1.0 Cyflwyniad

**1.1** Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi adroddiad drafft ar daliadau i Aelodau Etholedig a ddaw yn weithredol ar y 5ed o Fai 2017. Mae copi ar y ddolen isod.

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/161003-irp-draft-report-cy.pdf

Mae gwahoddiad i ymateb i'r adroddiad erbyn 28 Tachwedd 2016.

## 2.0 Cynnwys

### 2.1 Taliadau

O safbwynt taliadau sylfaenol mae'r Panel wedi penderfynu codi cyflog sylfaenol o £13,300 i £13,400 sef 0.75% o gynnydd.  Dyma'r cynnydd cyntaf a wneir mewn cyfnod o 3 blynedd.

Nid oes newid o safbwynt uwch gyflogau i'r hyn sy'n weithredol ar gyfer 2016/17 ac mae'r disgresiwn ynghylch lefelau cyflog i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgor a hefyd cyflog Dinesig yn parhau.

Yn ogystal, mae'r nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn yn parhau i fod yn 15 ar gyfer 2017/18.

### 2.2 Newidiadau Eraill

**Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch Gyflogau**

Mae rhan 11 o'r adroddiad yn cynnwys newidiadau i'r fframwaith er mwyn darparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hir dymor ar ôl ystyried y trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol.

Hefyd o safbwynt cyhoeddi gwybodaeth ynghylch costau gofal mae'r Panel yn argymell newidiadau i'r modd y cyhoeddir y wybodaeth fel y nodir yn Atodiad 4 o'r adroddiad.

**Cefnogi Gwaith Aelodau Etholedig**

Mae cyfeiriad yn yr adroddiad (rhan 3.16 i 3.18) at swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu'r cymorth a roddir i Aelodau etholedig.

Wrth baratoi ar gyfer y Cyngor yn Mai 2017 mae'n amserol i nodi hyn. Bwriedir trefnu grwpiau ffocws i aelodau er mwyn adolygu materion perthnasol megis y trefniadau i gefnogi aelodau, defnydd o dechnoleg gwybodaeth a'r angen hefyd i adolygu aelodaeth y cyrff allanol yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym Mai 2016. Bwriedir cynnal y grwpiau ffocws cyn diwedd Rhagfyr ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r Grŵp Arweinyddion wedi'i briffio ynglŷn â chynnwys adroddiad drafft y Panel ac maent yn derbyn y newidiadau. Hefyd maent yn cefnogi'r bwriad i gynnal grwpiau ffocws er mwyn paratoi ar gyfer y Cyngor newydd.

## 3.0 Argymhelliad

**3.1** Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ar:

a) Gynnwys yr Adroddiad drafft;

b) Y bwriad i gynnal grwpiau ffocws aelodau er mwyn adolygu'r gefnogaeth bresennol i aelodau a materion eraill a pharatoi ar gyfer y Cyngor ym Mai 2017.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**14.10.16**